Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Ffwrnes

Rhodfa Denham
Llanelli
SA15 4DD

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Ffwrnes

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gymraeg Ffwrnes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 468 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 344 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 74 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 1.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 20.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/01/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | 16/05/2017 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 04/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig sy’n gosod cyfeiriad strategol clir. Mae ei ddisgwyliadau uchel a’i weledigaeth o danio brwdfrydedd disgyblion yn eu dysgu yn treiddio drwy holl waith yr ysgol. Mae’r uwch dîm rheoli a’r llywodraethwyr yn cydweithio’n effeithiol i hyrwyddo diwylliant o uchelgais, parch a gofal. Mae athrawon, cynorthwywyr a disgyblion fel ei gilydd yn ymroi’n llawn i werthoedd yr ysgol ac yn cyfrannu’n fuddiol at ei chynnydd parhaus.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno profiadau dysgu ymarferol a chyffrous sy’n ysgogi chwilfrydedd a chreadigrwydd disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r profiadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau yn annibynnol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y meysydd dysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr yn darparu adborth clir a defnyddiol sy’n helpu disgyblion i ddeall yr hyn maent yn ei gyflawni’n dda ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Yn ddiweddar, mae staff wedi rhoi ffocws penodol ar gryfhau’r agwedd hon ymhellach. Yn yr arferion gorau, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau mireinio cynnwys eu gwaith yn grefftus.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn gryf, gan sicrhau bod disgyblion yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio technoleg sydd hefyd yn hybu eu medrau llafaredd yn fuddiol. Mae staff hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau a chredoau gwahanol yn llwyddiannus, gan feithrin eu parch a dealltwriaeth yn dda.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda. Maent yn gwrtais, yn weithgar ac yn cyfranogi’n ddiwyd yn eu dysgu mewn amgylchedd gofalgar a diogel. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn darparu cefnogaeth ychwanegol, pan fo angen. Trwy weithio’n agos â’r rhieni, y llywodraethwyr a’r gymuned leol, mae athrawon yn cynnig profiadau cyfoethog i ddisgyblion sy’n cryfhau’r ymdeimlad o berthyn a balchder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Gwreiddio a chysoni yr arferion adborth effeithiol i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi ymhellach i wella eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinyddiaeth gadarn, ddoeth ac ysbrydoledig y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae'n cael ei gefnogi'n fwriadus gan y dirprwy bennaeth ac aelodau o'r uwch dîm rheoli medrus. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a'r staff. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm effeithiol o arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr sy'n ymroi'n llwyr i werthoedd yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar annog disgyblion i ddysgu'n annibynnol, i fyw'n iach a chynnig cyfleoedd ar eu cyfer, er mwyn 'tanio dychymyg i greu dyfodol llwyddiannus'. Mae hyn yn sail greiddiol i ddatblygiad y cwricwlwm, a'r dulliau addysgu a dysgu sy'n treiddio'n gyson ar draws darpariaeth yr ysgol.

Mae'r prosesau gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn rhan annatod o waith yr arweinwyr. Maent yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn gwella profiadau dysgu, lles a chynnydd disgyblion. Mae diwylliant o anelu at y safonau uchaf wedi ei wreiddio'n gadarn.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant buddiol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae ethos o weithio fel tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chynorthwywyr yn elfen nodedig o'r ysgol. Maent yn cydweithio'n ddiwyd â'i gilydd a chydweithwyr mewn ysgol gyfagos er mwyn darparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn ystyriol o faich gwaith staff ac yn mynd i'r afael â newidiadau i'r ddarpariaeth sy'n cefnogi eu lles yn ystyriol. Mae'r llywodraethwyr yn falch o'r ysgol ac yn ymroi'n llawn a rhagweithiol i'w datblygiad parhaus. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn hynod effeithiol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â disgyblion. Mae'r amgylchedd dysgu a llawer o'r ardaloedd tu allan yn fannau ysgogol. Mae athrawon yn cyflwyno gwybodaeth yn ofalus ac yn meithrin disgwyliadau uchel gan ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei gyflawni er mwyn llwyddo. Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau dysgu, mae staff yn holi'r disgyblion yn dreiddgar er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth yn fuddiol. Mae athrawon yn gwneud defnydd buddiol o 'seibiau sydyn' i rannu llwyddiannau disgyblion ac fel cyfrwng iddynt adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n ysgogi disgyblion yn dda iawn. Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r pwyslais bwriadus mae staff yn ei roi ar ddarparu gweithgareddau ymarferol sy'n rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso ystod dda

o fedrau. Mae'r arfer hon yn dechrau o oedran cynnar y disgyblion, er enghraifft wrth i'r rhai ieuengaf bilio moron, a pharatoi brechdanau gan ddefnyddio cynhwysion go iawn.

### Ciplun: Cymhwyso medrau disgyblion trwy weithgareddau gwyddoniaeth

Mae arweinwyr wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysgeg sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu gweithgareddau ymarferol sy'n hybu diddordeb a chwilfrydedd disgyblion am wyddoniaeth. Maent yn cynllunio'r ddarpariaeth yn ofalus er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso medrau gwahanol mewn ystod ddiddorol o weithgareddau.

Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn cymhwyso medrau creadigol wrth greu model o ymennydd fel rhan o weithgaredd sy'n hybu agweddau cadarnhaol at iechyd. Wrth astudio mamaliaid gwahanol, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn archwilio penglog gan gymhwyso medrau siarad a gwrando Cymraeg yn hynod lwyddiannus wrth ei disgrifio. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgolli'n llwyr yn eu dysgu ac yn datblygu'n  ddysgwyr annibynnol yn fedrus wrth gymhwyso medrau digidol a llafaredd i greu animeiddiad am sgerbydau bodau dynol. Mae gallu'r disgyblion hŷn i adalw terminoleg wyddonol yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth.

Mae hyn oll yn deillio o weledigaeth arweinwyr ar gyfer yr addysgu, sy'n seiliedig ar ddarparu gweithgareddau dysgu ysgogol, ynghyd â disgwyliadau uchel o ddatblygiad medrau disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddathlu diwylliannau a chredoau gwahanol ynghyd â hanes a thraddodiadau lleol a Chymreig. Mae'r sesiynau cyd-addoli yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio mewn awyrgylch moesol ac ysbrydol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i ddeall cyfarwyddiadau Cymraeg o oedran cynnar, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae bron bob un yn siarad y hyderus yn y ddwy iaith. Mae'r defnydd o dechnoleg er mwyn hybu medrau llafaredd disgyblion yn elfen nodedig o waith yr ysgol, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd iddynt greu fideos sy'n cynnwys troslais ganddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau darllen straeon syml ac yn defnyddio ystod addas o ddulliau i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith, gyda'r mwyafrif yn addasu goslef eu llais i ennyn diddordeb y gwrandäwr. Gwneir defnydd effeithiol o gynllun penodol sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gaffael medrau ysgrifennu yn fedrus. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf

yn ysgrifennu’n hyderus yn Gymraeg a Saesneg, gan ddefnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy’n briodol i’r pwrpas a’r darllenydd yn fwriadus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o rif yn effeithiol drwy brofiadau ymarferol, fel wrth gyfri a chyfatebu rhifau a gwrthrychau mewn gweithgareddau go iawn. Erbyn brig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o’r pedair rheol sy’n eu galluogi i’w defnyddio’n effeithiol i ddatrys problemau amrywiol ar draws y meysydd dysgu. Mae cymhwyso medrau digidol yn rhan annatod o weithgareddau dysgu’r disgyblion, ac o ganlyniad, mae eu medrau yn datblygu’n effeithiol iawn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cryf, fel wrth i’r disgyblion ieuengaf greu model o gar wrth ddefnyddio pren ac offer go iawn. Mae staff yn darparu gweithgareddau coginio buddiol i ddisgyblion sy’n eu cefnogi i ddatblygu amrywiaeth o fedrau yn fuddiol ac i werthfawrogi bwyta’n iach.

Yn gyffredinol, mae staff yn darparu adborth perthnasol i ddisgyblion. Mae’r disgyblion yn ymateb trwy gywiro gwallau yn eu gwaith yn rheolaidd, sy’n cyfrannu’n werthfawr at eu dealltwriaeth o’r hyn sydd angen ei wella er mwyn gwneud cynnydd cyson. Yn ddiweddar, rhoddir ffocws penodol ar gryfhau a chysoni’r arfer hon ymhellach gan staff. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd brig yr ysgol, mae llawer yn dechrau mireinio cynnwys eu gwaith yn fwriadus yn dilyn adborth gan staff.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda, gan ddangos gwydnwch a dyfalbarhad effeithiol wrth ddysgu a chwarae. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn cael eu parchu wrth iddynt mwynhau dysgu mewn amgylchedd gofalgar. Mae'r amryw bwyllgorau yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth. Cefnogir hyn ymhellach gan gyfrifoldebau ychwanegol, fel gwaith swyddogion Blwyddyn 6 yn modelu ymddygiad da i’w cyfoedion wrth iddynt gyrraedd yr ysgol yn y boreau.

Mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd tymhorol gyda'r holl athrawon i drafod ac olrhain cynnydd pob disgybl, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o aelwydydd incwm isel. Maent yn defnyddio’r cyfarfodydd hyn yn fwriadus ac yn adnabod disgyblion a fydd yn elwa o gefnogaeth ychwanegol benodol. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant buddiol i staff sydd yn dylanwadu’n gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o sut i gefnogi disgyblion sydd ag ADY yn eu gweithgareddau dysgu.

Mae gan staff yr ysgol gysylltiadau cryf â’r gymuned leol sy’n arwain at brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Darperir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymryd rhan yn y celfyddydau mynegiannol, fel mewn sioe yn seiliedig ar chwedlau Cymru. Dros gyfnod,

mae arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau buddiol â’r rheini i’w hannog i fod yn rhan ragweithiol o brofiadau dysgu eu plant, fel wrth gydweithio ag elusen leol er mwyn darparu gweithdai am ddiogelwch ar-lein i deuluoedd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2026